CYNGOR BRO MORGANNWG

BWRIAD I GREU IS-DDEDDF LEOL

MAN AGORED CYHOEDDUS TRWYN Y RHWS

HYSBYSIR drwy hyn, yn unol ag adran 6(5) o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, ei bod yn fwriad gan Gyngor Bro Morgannwg o'r Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, Y Barri ('y Cyngor'), yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 20 Gorffennaf 2016 i greu is-ddeddfau yn unol ag adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906 yng nghyswllt tir cyhoeddus man agored yn Nhrwyn y Rhws, Y Rhws, Bro Morgannwg.

Gellir arolygu copi drafft o'r is-ddeddfau yn swyddfeydd y Cyngor yn y Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU a'r Alpau, Alps Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA yn ddi-dâl ar unrhyw ddiwrnod yn ystod yr wythnos heb fod yn Ŵyl y Banc yn ystod yr oriau swyddfa arferol am gyfnod o 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (y dyddiad cau yw 24 Mehefin 2016). Mae copi drafft hefyd i'w weld ar wefan y Cyngor: www.valeofglamorgan.gov.uk/rhoosepoint/secondwrittennotice.

Dylid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i greu'r is-ddeddfau yn ysgrifenedig i: Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai, Swyddfa'r Cyfarwyddwr – yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai, Yr Alpau, Alps Quarry Road, Gwenfô (defnyddiwch y cyfeirnod 'Is-ddeddfau Trwyn y Rhws') yn ddim hwyrach nag wythnos ar ôl dyddiad cau'r arolygiad.

Yn ogystal, gellir anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost at: consultation@valeofglamorgan.gov.uk (defnyddiwch y cyfeirnod 'Is-ddeddfau Trwyn y Rhws').

Dyddiedig y 12fed diwrnod o fis Mai 2016

DMales

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

Y Swyddfeydd Dinesig
Holton Road
Y Barri
Bro Morgannwg CF63 4RU